# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 5ed o Ebrill 2018 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Arwel Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Dai Evans, Helen Evans, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas, Iwan Thomas a Ray Williams. Denfer Morgan (Clerc).

**109 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies a John Lumley am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**110 Materion Personol**

Nodwyd fod y Cynghorydd John Lumley yn yr ysbyty o hyd a dymunwyd yn dda iddo.

**111 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fawrth 2018, yn amodol ar gywiro'r enw i "Nia Siop" yng Nghofnod 100b).

**112 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

a) Cais am 'Aelodaeth Corfforaethol' Theatr Felin-fach – angen dilyn i fyny.

b) Graeanu B4339 y tu allan I'r Ysgol Gynradd – Dywedodd y Cynghorydd Sir Marc Davies ei fod dal i bwysau i gynnwys y darn yma o ffordd yn 'matrix' yr Adran Briffyrdd ar gyfer ffyrdd sy'n cael eu graeanu.

**113 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD:**

i) talu Elfed Jenkins am baratoi a chynnal y Wefan Newydd yn y swm o £410;

ii) penodi Mr Gwyn Jones yn Archwiliwr Mewnol ar gyfer cyfrifon 2017-18. .

**114 Llwybrau Cyhoeddus yng Nghilcennin**

Rhoddwyd ystyriaeth i gyflwr rhai llwybrau cerdded cyhoeddus yng Nghilcennin a fel a ganlyn:

- Torri coeden ar un llwybr
- Rhwystrau mewn tri lleoliad ar Lwybr Tir Bach–Bethlehem – cytuno i rai Aelodau drafod gyda'r perchennog tir er mwyn delio gyda'r coed sydd wedi cwympo
- Angen bennu'r gwaith ar Lwybr Tir Bach–Bethlehem – Aelodau i drefnu bore Sadwrn wedi i'r tywydd wella
- Angen penodi rhywun i gymennu'r llwybrau cyhoeddus yn lle Gerard Tessier.

**115 Argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2018-19 – Lwfansau'r Aelodau**

Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Cynllun isod ar gyfer 2018-19:-

*Lwfans a gynhwyshir yn y Cynllun*

Penderfyniad 48 – Costau Teithio

*Lwfansau na chynhwyshir yn y Cynllun*

Penderfyniad 44 & 45 – Taliadau tuag at gostau a threuliau
Penderfyniad 46 & 47 – Uwch Rolau
Penderfyniad 49 – Costau Cynhaliaeth
Penderfyniad 50 – Digolledu am golled ariannol
Penderfyniad 51 – Ad-dalu costau gofal
Penderfyniad 52 – Honorariwm i Bennaeth Dinesig
Penderfyniad 53 – Honorariwm Ddirprwy Bennaeth Dinesig.

**116 Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar y posibilrwydd o gyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru cŵn**

Rhoddwyd ystyriaeth i lythyr dyddiedig 20 fed o Fawrth oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion yn gofyn am gefnogaeth i'r cynrychioliadau a wneir ganddynt i Lywodraeth Cymru i gyflwyno cytundeb 'trwyddedu' le byddai angen i berchnogion cŵn dalu ffi cofrestru blynyddol am eu hanifail anwes, gyda'r refeniw a godir yn cael ei ddefnyddio'n benodol gan awdudodau lleol i ymdrin â'r problemau a grëwyd gan ymddygiad perchnogion cŵn anghyfrifol ac afresymol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** peidio cefnogi'r cynrychioliadau a wneir gan y Cyngor Sir oherwydd fod yr Aelodau'n credu fod y system presennol o gŵn yn cael microsglodyn yn ddigonol ac y byddai system o'r fath yn cosbi perchnogion cŵn cyfrifol.

**117 Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 2018**

Nodwyd y llythyr.

**118 Ymgynghoriad ar Wasanaethau Gofal Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Dywedodd y Clerc y byddai'n gallu mynd i'r cyfarfod hwn.

**119 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

a) Dywedodd y Cynghorydd Dai Evans fod angen arwyddion 'Cilcennin' ar dro y Groesffordd, Hen Blas a thro Tŷ Mawr.

b) Gwella arwyneb ffordd breifat yng Nghiliau Aeron. Cyflwynodd y Cynghorydd Sir Marc Davies adroddiad Swyddogion Adran Priffyrdd y Cyngor Sir ar y mater gan ddweud fod cofnodion papur a chyfrifiadurol yr Adran, wrth eu diweddaru, yn gwrth-ddweud eu gilydd a bod y cofnod a ddefnyddiwyd yn dangos, yn anghywir, fod y ffordd yn un gyhoeddus. Dywedwyd fod camau wedi'u rhoi yn y lle er mwyn osgoi gwneud hwn yn y dyfodol. Roedd y gwaith wedi costio £31,000.

Nodwyd esboniad yr Adran am y cam gwag a wnaed a **PHENDERFYNWYD** cynnig i'r Adran Priffyrdd fod y Cyngor Sir yn ymgynghori gyda'r Cyngor Cymunedol perthnasol i gadarnhau fod y ffordd yn un cyhoeddus, cyn bwrw iddi gyda'r gwaith.

d) Cytunwyd anfon llythyr o gefnogaeth i'r unigolyn allai fod yn amddiffynydd mewn achos llys mewn perthynas â thorri gwrych o flaen y byngalo drws nesa' i Neuadd Bentref Cilcennin.

e) Cytunodd y Cynghorydd Ray Williams fynd i ddigwyddiad 'Pŵer y Bais' yn Llanerchaeron.

f) Rhoddwyd ystyriaeth i gais trefnwyr Dathliadau Cenhadon Neuaddlwyd – Madagascar yn 2018 am gefnogaeth i'w cais i'r Cyngor Sir am grant cymunedol a chyfraniad ariannol.

**PENDERFYNWYD** anfon llythyr o gefnogaeth a chyfrannu £500 tuag at y Dathliadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 pm